**Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**ADRODDIAD CYNNYDD AR DDYSGU 14-19 YNG NGHYMRU**

**Diben**

1. Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y cynnydd a wnaed wrth lunio strategaeth arbennig i Gymru a rhoi cyfle i'r Pwyllgor roi sylwadau ar y themâu sy'n dod i'r amlwg o'r drafodaeth sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

**Amseru**

2. Yn y cyfarfod llawn ar 28 Mai 2002, cyhoeddodd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes fod y drafodaeth yn cychwyn. Addawodd y byddai dogfen ymgynghori yn cael ei pharatoi erbyn diwedd mis Hydref 2002 a fyddai'n cynnwys argymhellion penodol ynghylch datblygu, ac y byddai cyfnod ymgynghori ffurfiol yn cael ei gynnal yn ystod misoedd Tachwedd a Rhagfyr. Ym mis Mawrth 2003, cyhoeddir cynllun gweithredu a fydd yn cymryd yr ymatebion hyn i ystyriaeth.

**Cefndir**

3. Yn "*Y Wlad sy'n Dysgu*", a gyhoeddwyd ym mis Medi 2001, gwnaed ymrwymiad i ymgynghori â'r holl garfanau perthnasol. Caiff yr ymrwymiad hwn ei wireddu pan gyhoeddir y ddogfen ymgynghori yn yr hydref.

4. Mae'r Tîm Polisi Ieuenctid wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros arwain y datblygiad hwn, ond mae'n gweithio fel rhan o dîm trawsbynciol sy'n cynnwys yr Adran Addysg a Hyfforddiant a nifer o feysydd polisi eraill y Cynulliad. Mae'r Tîm hefyd yn cydweithio â chynrychiolwyr o bob sector sy'n ymwneud ag addysg, hyfforddiant a gwaith pobl ifanc Cymru.

5. Daeth enwebiadau i law oddi wrth nifer o wahanol gyrff ar gyfer aelodau Tîm y Prosiect , gweler Atodiad B, ac aelodau'r Grwp Cyfeirio Allanol, gweler Atodiad C. Enwebwyd John Williams, Pennaeth Ysgol Uwchradd Pen-y-dre ym Merthyr, gan ei Awdurdod Addysg Lleol ac mae wedi bod yn barod ac yn gymwys i ymgymryd â'r baich o arwain Tîm y Prosiect. Mae ef ar secondiad i'r Tîm Polisi Ieuenctid am chwe mis rhwng mis Mai a mis Hydref 2002.

6. Mae Tîm y Prosiect, mewn cydweithrediad â chydweithwyr yn y sector, wedi bod yn meithrin syniadau i'w trafod ledled Cymru. Y bwriad yw ceisio sicrhau bod carfanau perthnasol ledled y wlad yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r argymhellion a fydd yn

ymddangos yn y ddogfen ymgynghori ym mis Hydref. Mae hwn yn gyfle gwirioneddol i'r rhai sy'n gweithio gyda phobl ifanc, ac i'r bobl ifanc eu hunain, helpu i lunio dyfodol dysgu 14-19 yng Nghymru.

7. Rôl y Grwp Cyfeirio Allanol yw profi a herio'r syniadau sy'n dod i'r amlwg ynghyd â chyfrannu'u syniadau pwysig eu hunain. Dylai cynigion cadarn ddeillio o'r gwaith hwn, cynigion a fydd yn addas i Gymru ac a gaiff gefnogaeth y rhai a fydd yn rhoi'r newidiadau ar waith a'r rhai y bydd y newidiadau hyn yn effeithio arnynt.

**Datblygu cynaliadwy**

8. Bydd y Prosiect 14-19 yn effeithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ar feysydd polisi ledled y Cynulliad. Mae'n hanfodol, felly, meithrin a chynnal cysylltiadau polisi priodol yn gynnar a sicrhau bod y Prosiect yn dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu polisïau, a'u rhoi ar waith, y tu allan i faes addysg a hyfforddiant, gan ategu a chefnogi'r weledigaeth a amlinellwyd yn y ddogfen "Cynllun i Gymru 2001". Ar hyn o bryd, mae Tîm y Prosiect yn cydweithio â'r Uned Polisi Strategol i sicrhau bod hyn yn digwydd. Mae'r Prosiect hwn ymhlith y cynlluniau peilot ar gyfer dull y Cynulliad o fynd ati i gloriannu datblygu cynaliadwy. Cafodd y Prosiect ei gloriannu gan ddefnyddio'r dull hwn am y tro cyntaf ar 19 Mehefin, a deilliodd trafodaeth ddefnyddiol ohono. Bydd yn cael ei ddefnyddio eto drwy gydol y broses i brofi'r argymhellion a ddaw i'r amlwg a ffurf yr adroddiad.

**Goblygiadau Ariannol**

9. Roedd y goblygiadau ariannol ar gyfer y drafodaeth a'r ymgynghoriad yn destun SF/ JD00177/02 a gellir eu bodloni o ymrwymiadau sy'n bodoli eisoes. Datblygir goblygiadau ariannol ar gyfer y dyfodol fel rhan o'r prosiect a chânt eu cynnwys yng nghylch cynllunio cyllideb 2003-04 a'r blynyddoedd a ddaw.

10. Mae rhai o'r awgrymiadau sy'n dod i'r amlwg yn ymwneud ag ailddosbarthu adnoddau sy'n bodoli eisoes, ynghyd â rhai a fyddai'n galw am fwy o arian.

**Cydymffurfio**

11. Nid oes unrhyw fater sy'n ymwneud â rheoleidd-dra na chydymffurfio yn deillio o'r cyflwyniad hwn. Yn unol ag Adran 10 o Ddeddf Addysg 1996, mae dyletswydd ar y Cynulliad i hyrwyddo addysg pobl Cymru. Mae Adrannau 40 ac 85 o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn hwyluso'r gwaith o arfer y swyddogaeth honno. Mae'r pwerau hyn wedi'u dirprwyo i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes. Yn unol â Rhybudd Cyllid 1/01, nid oes gofyn i Swyddfa Gydymffurfio'r Cynulliad gadarnhau'r cyflwyniad hwn ymlaen llaw, ond anfonwyd copi i'r Swyddfa am resymau monitro.

**Cyswllt**

Elizabeth Williams

Y Tîm Polisi Ieuenctid

029 2082 6523

ebost: elizabeth.williams@wales.gsi.gov.uk